

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Gwersi Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH

Luc 1: 5-20
a 57-66



ADNOD ALLWEDDOL

Luc 1: 37

Gwers 1 Y Nadolig Cyntaf – Yr Amhosibl!

Beth oedd yr anrheg Nadolig orau gawsoch chi erioed? Efallai ei fod yn rhywbeth na wnaethoch chi erioed freuddwydio y byddech yn ei gael. Yn y gwersi hyn, rydyn ni'n mynd i edrych ar y Nadolig cyntaf, pan gafodd Iesu ei eni. Ond cyn dysgu am eni'r Arglwydd Iesu, rydyn ni am ddarllen am blentyn arall a roddodd lawenydd mawr i'w rieni!

C Pwy oedd y brenin pan gafodd y plentyn hwn ei eni?

Ticiwch y blwch cywir.

Cesar Pharo Herod Iago

Yn y dyddiau hynny, os oedd cwpwl yn methu cael plant, roedd llawer o bobl yn meddwl eu bod wedi gwneud rhywbeth drwg a bod Duw yn eu cosbi. Ond edrychwch ar adnodaau 5 a 6.

C Ysgrifennwch yn EICH GEIRIAU EICH HUNAN pa fath o bobl oedd Sachareias ac Elisabeth.

C Atebwch CYWIR neu ANGHYWIR i'r brawddegau isod:-

Roedd Sachareias ac Elisabeth yn hen.

Roedd Sachareias yn gweithio yn y palas.

Gwelodd Sachareias angel.

Galwodd Sachareias ac Elisabeth eu mab yn Joseff.

Roedd y cymdogion yn drist iawn.




1

2

5

- C** Tynnwch linell o'r bys i'r ateb cywir.
Beth oedd gwaith Sachareias?



Brenin
Pysgotwr

Pharisead
Offeiriad


1

CROESAIR

Defnyddiwch eiriau o'r Darlleniad o'r Beibl i wneud y croesair.

Cliwiau ar Draws

- Beth oedd Sachareias yn ei offrymu yn y cysegr?
- Nid oedd y plentyn i fod i yfed _____.
- Pwy oedd y tu allan yn gweddïo pan oedd Sachareias yn y cysegr?
- Dyweddodd yr angel y byddai Sachareias yn cael llawenydd a _____.



Cliwiau i Lawr

- Enw'r angel a ddaeth i weld Sachareias.
- Byddai'r plentyn yn cael ei lenwi â'r Ysbryd _____.
- Elisabeth oedd _____ Sachareias.
- Roedden nhw i fod i alw'r plentyn yn _____.

7

- C** Ym mha adnod rydyn ni'n darllen am Sachareias yn bendithio Duw?


Adnod:

1

- C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

2

- C** Trwy fynydd-dir pa wlad roedd pobl yn trafod y digwyddiadau hyn? Ysgrifennwch eich ateb ar y bryniau.



1

Doedd Sachareias ddim yn gallu credu geiriau'r angel, ond daethant yn wir! Ddylai e ddim fod wedi amau. Weithiau, mae'n anodd i ni gredu beth rydym yn ei ddarllen yn y Beibl ond os edrychwn ni ar yr Adnod Allweddol fe gofiwn ni - 'Ni bydd dim yn amhosibl gyda Duw!'

--